# CYNHWYSIANT



Nod Mudiad Meithrin yw sicrhau bod cyfle i bob plentyn elwa o brofiadau a gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn ei gymuned leol.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

www.meithrin.co.uk
www.bilingualfrombirth.com

## CYNHWYSIANT

Mae Mudiad Meithrin yn cynnal Cynlluniau Cyfeirio ar draws Cymru sy'n cefnogi plant ag anghenion ychwanegol yn y cylchoedd meithrin. Mae'r cynlluniau hyn yn cyflogi Cysylltwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a'r cylchoedd meithrin er budd y plant a'u teuluoedd.

**Gall gwasanaeth y cynlluniau gynnwys:**

### I'r plentyn:-

- Cyfle i chwarae â phlant eraill yn y gymuned leol.
- Cyfle i ymuno yn yr hwyl a gwneud ffrindiau mewn awyrgylch hapus a diogel.
- Cefnogaeth aelod ychwanegol o staff yn y cylch os oes angen.

### I'r teulu:-

- Cyfle i drafod cefnogaeth addas i'r plentyn gyda'r Cysylltydd.
- Cyfle i ymweld â'r cylchoedd meithrin lleol.
- Amser rhydd i'r rhiant gyda'r sicrwydd bod y plentyn yn derbyn gofal o ansawdd uchel.

### I'r cylch meithrin:-

- Cyngor a hyfforddiant i'r cylch gan arbenigwyr ac asiantaethau perthnasol yn y maes.
- Offer arbenigol.
- Cyllid ar gyfer aelod ychwanegol o staff ar gyfer y plentyn os oes angen.





Am wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth yn eich ardal chi ffoniwch:

**01970 639 639**

neu tu allan i oriau gwaith ffoniwch am ddim ar:

**08000 11 22 33**

neu cysylltwch trwy e-bost:
post@meithrin.co.uk

neu ewch i:
www.meithrin.co.uk

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cefnogir ein gwaith gan:

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government